# YSGOL GYMRAEG GWAUN Y NANT



**CYFEIRIAD/*ADDRESS*:** Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant
*Amroth Court*
*Caldy Close*
Y Barri
CF62 9DU

**FFON / *TELEPHONE* :** 01446 421723
**CYFLUN / *FAX* :** 01446 733202
**E-bost/ E-mail:** YGwaunYNant@valeofglamorgan.gov.uk

**STAFF:**

Pennaeth / *Headteacher:* Rhydian Lloyd
Dirprwy/ *Deputy*: Sara Tomos

Athrawon dosbarth/*Class teachers*:

Mrs Rhian Yeo- Uwch Dim Rheoli / Senior Management Team
Mrs Angharad Lloyd- Uwch Dim Rheoli / Senior Management Team
Mr Tim Stedman
Mrs Rhian Brown
Mrs Catrin Phillips
Miss Fiona Rees
Mrs Rhean Lewis
Mrs Lowri Delve
Miss Catrin Hughes
Mr Robert Williams

Cynorthwywyr/*Teachers' Assistants*:
Miss Natalie Page
Mrs Sian Hazelwood
Miss Olivia Insole
MRS Jessica De La Nougerede
Miss Jemma Reynolds
Mrs Laura Mapstone
Miss Sarah Jenkins
Miss M Parsons

Miss Holly Case- Higher Learning Teacher Assisstant– Wellbeing
Mrs Charlotte Anastasi- Higher Learning Teacher Assisstant– Nursery

Ysgrifenyddes/*Secretary*: Mrs S Dotchon

Gofalwraig/*Caretaker*: Mrs T Browne

Cogydd/ Cook: Mrs Natalie North

Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Chair of Governors- Mr Brenig Davies

## Lleoliad

Saif yr ysgol ar ochr ddwyreiniol tref Y Barri ac mae'n gwasanaethu ardaloedd Gibbonsdown, Tregatwg, Palmerstown, Pen-coetre a'r Gwenfo.   Agorwyd yr ysgol ar ei safle presennol yn y flwyddyn 2001 ar ôl cyfnod ar safle Ysgol Sant Curig.
Dros y blynyddoedd tyfodd yr ysgol wrth i'r galw am addysg Gymraeg gynyddu. Mae canran uchel iawn o'n rhieni yn ddi-gymraeg ond yn danfon eu plant atom wrth iddynt weld manteision dwyieithrwydd. Gweithiwn yn agos gyda'n rhieni fel eu bont yn chwarae rhan llawn yn addysg eu plant.



## Location

The school is situated on the Eastern side of Barry and serves the areas of Gibbonsdown, Cadoxton, Palmerstown, Pencoedtre and Wenvoe. The school was opened on its present site in 2001 after a period at Ysgol Gymraeg Sant Curig.

Over the years the school grew steadily as the demand for Welsh medium education increased. A high percentage of our parents are non-Welsh speakers but send their children to the school as they see the value of bilingualism. We work closely with our parents so that they are fully involved in their children's education.

**Nod a Gwerthoedd yr Ysgol**

Ein nod fel ysgol yw creu awyrgylch hapus a diogel i'n disgyblion fel eu bont yn awyddus i ddysgu ac yn mwynhau dod i'r ysgol.
Ymfalchïwn yn y ffaith ein bod ni yn ysgol gyfeillgar, hapus ac agored. Rydyn yn awyddus iawn i weithio mewn partneriaeth â'n rhieni er mwyn i'n disgyblion gyrraedd eu llawn botensial.
Anogwn ein disgyblion i barchu  eraill a dangos cariad tuag at eu gwlad, iaith, diwylliant a threftadaeth.
Cymerwn ein cyfrifoldeb o baratoi ein disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol a gofalgar o ddifrif, a gweithiwn yn galed i feithrin gwerthoedd yn ein disgyblion a fydd yn eu paratoi at fod yn unigolion balch, hyderus a chyflawn.
Parch, Ymdrech a Chymreictod yw tri gwerth craidd yr ysgol.





**School Aim and Values**

Our aim as a school is to create a happy and safe environment for our pupils so that they are eager to learn and enjoy coming to school.
We take pride in the fact that we are a friendly, open and happy school. We are very keen to work in partnership with parents so that our pupils achieve their full potential.
We encourage children to respect others and demonstrate a love towards their country, language, culture and heritage.
We fully realise our responsibility in developing our pupils to be responsible and caring citizens and work hard to instil values in them  that will make them proud, confident and well rounded individuals.
Respect, Effort and Welshness are our 3 core values.

## AMCANION YR YSGOL

1. Creu awyrgylch hapus gyda gofal a sylw dyladwy i bob plentyn ac aelod o staff.

2. Cynnig profiadau addysgol eang trwy gyfrwng cwricwlwm ystwyth, ystyrlon a pherthnasol a fydd yn hyrwyddo ansawdd bywyd, yn annog cyrhaeddiad uchel ac yn datblygu agweddau moesol cadarn.

3. Rhoi'r arfau angenrheidiol i'r disgyblion i sicrhau llwyddiant ym mob agwedd o'u haddysg.

4. Symbylu diddordeb, chwilfrydedd a hunan hyder.

5. Argymell y cysyniad o hunan barch a pharch at eraill o fewn fframwaith y traddodiad Cristnogol Cymreig.

6. Annog parch a chydymdeimlad at rai sydd a thraddodiadau, arferion ac ieithoedd gwahanol.

7. Sicrhau mai Cymraeg yw'r cyfrwng cyfathrebu ym mhob agwedd o waith yr ysgol.

8. Datblygu ymwybyddiaeth o hanes a daearyddiaeth Cymru a'i thraddodiad o gerdd, chwedl a chân o fewn cyd-destun cenedlaethol a rhyng-genedlaethol.

9. Sicrhau bod pob plentyn, yn fachgen neu'n ferch, â hawl cyfartali gwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol.

10. Bod yn ymwybodol o blant ag anghenion arbennig a'r angen i ddarparu ar eu cyfer fel bod cyfle i bob plentyn ddatblygu ei allu i'r eithaf.

## THE AIMS OF THE SCHOOL

1. To create a happy atmosphere with due care and attention to every child and member of staff.

2. To offer wide educational experiences through the medium of a flexible meaningful and appropriate curriculum which will promote the quality of life, encourage high attainment and develop strong moral attitudes.

3. To provide pupils with the necessary tools with which to ensure success in all aspects of their education.

4. To stimulate interest, curiosity and self-confidence.

5. To promote ideas of self respect and respect for others within the framework of the Welsh Christian tradition.

6. To encourage respect and sympathy for people who possess different traditions, customs and languages.

7. To ensure that Welsh is the language of communication in every aspect of the school's work.

8. To develop awareness of the history and geography of Wales and its tradition of music, legend and song in a national and international context.

9. To ensure that all children, boys and girls alike, have an equal right to a wide, balanced and relevant curriculum.

10. To be aware of children with special needs and provide for them so that each child will have the opportunity to develop his/her ability to the fullest extent.

# DARPARU EICH PLENTYN AR GYFER YR YSGOL

Cynigir lle yn y Feithrin i blant sydd yn dair oed. Yn ddibynnol ar y nif-eroedd, gall hyn fod yn sesiwn bore neu sesiwn brynhawn.
Fel arfer bydd pob plentyn yn dechrau'r ysgol llawn amser yn y mis Medi yn dilyn eu pedwerydd penblwydd.
Rydym yn dilyn polisi Mynediad yr Awdurdod a cheir copi o'r polisi ar gwefan y Cyngor. Gwneir pob cais drwy'r Awdurdod LLeol.

Wrth ddechrau'r ysgol, bydd eich plentyn yn cymryd un o gamau mwyaf ei (f)bywyd. Mae'n bwysig felly iddi(o) fod yn barod ac yn awyddus i gymryd y cam hwn.

Dyma rai awgrymiadau yr hoffech efallai eu hystyried i ddarparu eich plentyn ar gyfer ei yrfa yn yr ysgol:

1. Siaradwch yn gadarnhaol â'ch plentyn ynglyn â'r ysgol.

2. Mae sgiliau cymdeithasol yn holl bwysig. Helpwch eich plentyn i fod yn gwrtais bob amser.

3. Helpwch eich plentyn i ddeall bod "na" yn golygu "na".

4. Dysgwch eich plentyn i fod yn annibynnol drwy adael iddo wisgo a dadwisgo ei hunan. Bydd hyn yn ei helpu ar gyfer gwersi ymarfer corff.

5. Rhowch enw eich plentyn ar bob dilledyn os gwelwch yn dda a'i helpu i'w adnabod.

6. Annogwch eich plentyn i chwarae gyda teganau ac offer mân e.e. pen-siliau, siswrn, clai a thoes, Lego ac yn y blaen.

7. Dysgwch eich plentyn i roi ei deganau ei hun heibio.

8. Bydd eich plentyn wedi cynhyrfu ac wedi blino ar ddiwedd y dydd. Byddwch yn amyneddgar ac edrychwch ymlaen at weld eich plentyn yn cynefino yn hapus yn ei amgylchfyd newydd.





# *PREPARING YOUR CHILD FOR SCHOOL*

*A placement in the Nursery is offered to children who are three years old. Depending on the numbers, this could be a morning session or afternoon session. It is usual for children to start full time education in the September following their fourth birthday.*
*The School has adopted the Authorities Admissions Policy which is available on the Council website.*
*All applications should be made through the Local Authority.*

*When starting school, your child will be taking one of the biggest steps of his/her life and it is important that he/she is well prepared and eager to take this step.*

*Here are a few points that you may consider which could help your child to be ready and happy to join full-time education:*

1. *Always talk to your child in a positive manner about the school.*

2. *Social skills are important. Help your child to learn the importance of good manners.*

3. *Help them to learn that “no” means “no”.*

4. *Teach your child to be independent by allowing them to dress and undress on their own in preparation for P.E. lessons.*

5. *Label each item of clothing and try to ensure that your child recognises his/her name.*

6. *Encourage activities involving small toys and objects e.g. arranging cutlery, drawing, writing, cutting with scissors, playing with dough, Lego etc.*

7. *Encourage your child to put away his/her own play things.*

8. *Yours child is likely to be excited and tired at the beginning of his/ her school term. Be patient and look forward to seeing your child settle down happily in his/her new environment.*



## Sut fedra i fod o gymorth?

Er mwyn bod yn rhan weithredol o fywyd yr ysgol fe'ch anogir i wneud y canlynol:-

1. Mynychu nosweithiau cymdeithasol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.
2. Ymuno â phwyllgor y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.
3. Cynnig cymorth ymarferol i'r athrawon e.e. gwnio, torri papur, cymryd grwpiau celf, bod yn bartner darllen ac ati.
4. Mynychu cyfarfodydd rhieni ac athrawon i drafod datblygiad eich plentyn.
5. Gofalu bod eich plentyn yn gwneud ei waith cartref a'i anfon yn ôl i'r ysgol.
6. Bod yn bresennol yng ngwasanaethau a chyngherddau eich plentyn.

Os ydych yn bryderus ynglyn â'ch plentyn yn yr ysgol ar unrhyw adeg cysylltwch gyda'r pennaeth ar unwaith. Mae drws agored i rieni bob amser.

Gallwn, gyda'n gilydd, wneud gyrfa eich plentyn yn yr ysgol yn un adeiladol a hapus. Bydd yn gallu edrych yn ôl ar y blynyddoedd hyn ag atgofion melys.

## How can I help?

*In order for you to become an active member of school life, you are encouraged to do the following:-*

1. *Attend the social functions of the Parent Teacher Association.*
2. *Join the Parent Teacher Association Committee.*
3. *Offer practical help to the teachers e.g. sewing, cutting paper, supervising small art and craft groups, be a reading partner etc.*
4. *Attend parents' evenings to discuss your child's progress.*
5. *Ensure that your child completes his/her homework and returns it to school.*
6. *Attend your child's service and concerts.*

*If you are concerned about your child in school in any way do not hesitate to contact the Headteacher at any time. The door is always open to parents.*

*REMEMBER - A problem shared is a problem halved.*

*Together we can make your child's years in school happy and constructive ones on which he/she will look back with fond and pleasant memories.*

# Gwybodaeth Gyffredinol/General Information

## Ysgol Iach

Mae'r ysgol yn rhan o'r Rwydwiath Ysgolion Iach ac yn rhoi pwyslais mawr ar  fwyta'n iach.
Annogir disgyblion i ddod a ffrwyth i'r ysgol amser chwarae.
Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn derbyn llaeth (am ddim) a  ffrwyth yn ddyddiol.
Gellir talu am y ffrwyth hanner tymor o  flaen llaw ar ParentPay
Annogir ein disgyblion i gadw potel o ddwr yn yr ystafell ddosbarth yn ystod y dydd ond ni chaniateir diodydd melys.

Ni chaniateir losin, siocled neu creision fel byrbryd amser chwarae.

## *Healthy School*

*The school is part of the Healthy School Network and places great emphasis on healthy eating and living. Pupils are encouraged to bring fruit as a snack for break time.*
*Foundation Phase pupils receive milk (free of charge) and fruit daily.*
*Fruit may be paid for in advance on ParenPay*
*Children are encouraged to keep a bottle of water in the classroom during the day and are able to keep the bottle topped up from a chilled water dispenser.*

*Sweets, chocolate and crisps are not permitted as snacks.*



## Clybiau Ysgol / Urdd

Mae'r ysgol yn rhedeg Clwb Brecwast i ddisgyblion yr ysgol (nid plant Meithrin) bob bore.
Cynhelir clybiau chwaraeon a Chlwb yr Urdd  yn achlysurol wedi oriau'r ysgol. Mae'r ysgol yn gefnogol or Urdd ac yn cymryd rhan yn yr Eisteddfodau a chystadleuthau chwaraeon a chelf a chreft.

## *After School Clubs / The Urdd*

*The school runs a daily Breakfast Club for pupils (excluding Nursery) . Sport and Urdd clubs are run after school. The school supports the Urdd's activities by taking part in Eisteddfodau, sports and art and craft competitions.*

**Teithio i’r Ysgol**

Maer ysgol yn annog rhieni i gerdded, beicio neu i rannu ceir wrth ddod au plant i’r ysgol. Erfynnir am gydweithrediad pawb er diogelwch y plant. Mae Pwyllgor Ecor ysgol yn pwysleisio'r angen i rieni i feddwl am yr amgylchedd wrth deithio i’r ysgol. Cyfyngir parcio mewn maes parcio penodedig ar gyfer rhieni ac ymwelwyr.
Ni chaniateir i’r rhieni barcio ym maes parcior staff. Dylid gyrru’n ofalus ac yn bwyllog ger safle’r ysgol.

**Travelling to School**

The school encourages parents to walk, cycle or share lifts when bringing their children to school. We ask for everyone’s cooperation in ensuring the children’s safety. The schools Eco Committee stress the need for parents to think of the environment when considering ways of travelling to school.
Parents can leave their cars outside the school premises in the visitors car park. Parents are not permitted to park in the staff car park. Everyone should drive carefully and sensibly near the school site.



**Disgyblaeth**

Yn nwylo'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr mae'r cyfrifoldeb am ddisgyblaeth yn yr Ysgol. Dylid trafod unrhyw gwyn gyda'r Pennaeth yn y lle cyntaf. Yna, os nad oes cytundeb, gellir apelio at y Llywodraethwyr.
Mae gan y Corff yma'r hawl i eithrio plentyn am gyfnod, neu'n barhaol hyd yn oed, mewn achosion difrifol.
Disgwylir i bob disgybl ymddwyn yn yr Ysgol, ac oddi allan os ar weithgaredd sy'n ymwneud â'r Ysgol, mewn modd sydd yn synhwyrol, yn rhesymol ac yn ddiogel ar bob adeg.

***Discipline***
*Responsibility for discipline in the School rests with the Head and Governing Body. Problems should be discussed with the Head in the first instance. Should agreement be impossible, the matter may then be referred to the Governing Body. This Body has the right of the ultimate sanction in serious cases - temporary, or even permanent, suspension.*
*Every pupil is expected to behave in school, or on School business elsewhere, in a sensible and safe manner that is reasonable at all times.*

**Cinio Ysgol**

Coginir y cinio yng nghegin yr ysgol. Gellir cael copi o’r fwydlen o wefan y Cyngor ac ar App yr ysgol. Caiff y plant ddod â brechdanau.
Mae pob disgybl yn gymwys gm cinio am ddim.
Ni chaniateir poteli gwydr. Arolygir y plant yn ystod yr awr ginio gan gynorthwywyr. Maer ysgol yn aelod or “Rhwydwaith Ysgolion Iach” ac yn rhoi pwyslais mawr ar fwyta’n iach ac ymarfer rheolaidd.

***School Lunch***

*Lunch is cooked in the school kitchen. The menu is available at school. Children may bring sandwiches. Glass bottles are not permitted. The children are supervised at lunchtime by assistants.*
*All pupils are eligible for a free school meal. The school is a member of the “Healthy Schools Network“ and puts great emphasis on healthy eating and regular exercise.*



**Moddion/ "Inhalers"**

Er mwyn sicrhau diogelwch y plant mae gan yr ysgol bolisi ynglŷn â meddyginiaeth (gan gynnwys eli). Yn arferol, ni ddylai unrhyw ddisgybl gymryd unrhyw feddyginiaeth yn ystod oriau'r ysgol. Lle bo gwir angen, dylai'r rhiant neu warchodwr ddefnyddio ffurflen swyddogol yr ysgol i nodi manylion y driniaeth, a dilyn y canllawiau a nodir yno. Bydd gan yr aelod o'r staff yr hawl i gytuno i weithredu neu i beidio, ond ni chaniateir i aelodau'r staff fod yn gyfrifol am anghenion meddygol plant. Caniateir 'inhalers' fodd bynnag, ar yr amod fod yr athrawon wedi eu hysbysu yn ysgrifenedig o anghenion y plentyn a'r defnydd priodol. Cedwir hwy mewn man priodol gan y staff.
Pan fo hi'n heulog, dylid darparu het ac eli haul, er mwyn gwarchod y plentyn.

***Medicine/ Inhalers***

*In the interest of the children's safety, the school has a policy with regard to medication (including creams). Any medication should normally be administered outside school hours. However, where this is unavoidable, parents or guardians should complete the official form available from school, giving full details, and comply with the other instructions given. Staff may then decide whether or not they can help you, but under no circumstances are they allowed to take responsibility for children's medical needs. However, inhalers are permitted, provided that the teachers have been made aware in writing of the child's needs and the appropriate dosage.*
*During very sunny weather, please provide a hat and sun cream to protect your child.*

**<u>Trefniadau ar gyfer cau'r ysgol yn ddirybudd</u>**

Gwneir pob ymdrech i gadw’r ysgol ar agor ond mewn achosion o dywydd gwael gall yr ysgol orfod cau heb lawer o rybudd. Fe fyddwn:

• yn eich hysbysu drwy neges destyn.
• yn cysylltu yn gynnar yn y bore gyda rhaglenni radio lleol.
• Postio neges ar gyfrif Twitter yr Ysgol.

Mae'n ddyletswydd arnoch chi fel i rhieni sicrhau fod eich rhifau argyfwng personol l ac argyfwng diweddaraf gan yr ysgol

***<u>Arrangements for unforeseen school closures</u>***

*All efforts will be made to keep the school open but in the case of severe weather conditions, the school may close without much warning. We will:*



- *Send parents a text message*
- *contact local radio programmes*
- *Post a message on our Twitter account*

*Please ensure that we have your current personal and emergency contact numbers.*

**<u>Absenoldebau</u>**
Cynghorir pob rhiant i sicrhau fod pob plentyn yn mynychur ysgol yn rheolaidd. Gwerthfawrogir nodyn neu alwad ffon yn esbonio pob absenoldeb er mwyn osgoi ymholiadau swyddogol. Gall hyd yn oed absenoldeb byr amharu ar ddilyniant addysg eich plentyn.
Cysylltir â rhieni ar ddiwedd pob tymor os yw’r presenoldeb o bryder.
Mewn achosion difrifol cysyllti’r â’r Swyddog Lles Addysg.

***<u>Absences</u>***

*Every parent is advised to ensure that each child attends school regularly. A note or telephone call explaining every absence is appreciated in order to avoid official enquiries. Even a short absence can have an adverse effect on your child’s education. The school will inform  parents at the end of term of your child’s attendance is of concern.*
*In cases of high absenteeism the Education Welfare Officer will be contacted.*

## Chwaraeon

Ein hamcan yw cynnig amrediad eang o chwaraeon i'r plant.
Rhoddir sylfeieni cadarn iddynt yn y Cyfnod Sylfaen. Adeiliadir ar y sylfeini hyn yng Nghyfnod Allweddol 2 drwy ddatblygu'r sgiliau ymhellach.
Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn nifer o gystadlaethau pêl droed, rygbi, pêl-rwyd a nofio. Mae disgyblion blwyddyn 6 yn derbyn gwersi nofio.
Cynhelir diwrnod Mabolgampau yn flynyddol.





## *Sport*

*Our aim is to offer the pupils a wide variety of sporting opportunities. The foundations are laid in the Foundation Phase. These are built upon in Key Stage 2 by further development of skills.*
*Pupils are able to take part in various football, rugby, netball and swimming tournaments.*
*Year 6 pupils have swimming lessons and an annual Sports Day is held.*





**Diogelwch**

Mae diogelwch pawb yn yr ysgol yn hanfodol. Mae tir yr ysgol yn cael ei ddiogelu gan gamerau cylch-caeedig. Nid oes modd dod i mewn i'r ysgol heb ganiatad. Ni chaniateir i blentyn fynd tu allan i ffiniau'r ysgol ar unrhyw achlysur heb fod gydag oedolyn cyfrifol. Yr ydym yn dilyn polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol ac yn cynnal asesiad risg yn gyson. Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o leoliad y bocsys cymorth cyntaf a'r trefniadau sydd angen eu dilyn.

***Safety***

*The safety of all those within the school is of paramount importance. The school grounds are kept secure by the use closed circuit television cameras. Entry into the school is by permission only. No child is allowed outside the school grounds unless accompanied by a responsible adult. We adhere to the Health and Safety policy and risk assessment is carried out on a regular basis. All members of staff are familiar with the location of the first aid boxes and are of aware of the correct procedures to follow should an accident occur.*

**Polisi Codi Tâl**

Mae'r ysgol yn trefnu nifer o ymweliadau addysgiadol yn ystod y flwyddyn gan gynnwys ymweliad â gwersyll yr Urdd yn Llangrannog, ac o bryd i'w gilydd fe fydd hi'n ofynnol i ni ofyn am gyfraniad gan y rhieni tuag at y costau. Mae posib talu am dripiau dros gyfnod o amser. Os difrodir neu os gollir eiddo'r ysgol byddwn yn disgwyl i'r rhieni ein digolledu.

***Payment Policy***

*During the course of the year, the school arranges several educational visits including a visit to the Urdd camp at Llangrannog, and it is necessary for us to ask parents for contributions to help towards the costs. Parents are able to pay for trips through contributions over a period of time. Should school property be damaged or lost we shall hold the parents responsible for reimbursement.*





# Gwisg Ysgol / School Uniform

Pinaffor/sgert/trowsus/ siorts llwyd
Ffrog Haf sgwariau melyn a gwyn
Cardigan / crys chwys glas tywyll
Crys polo melyn
Esgidiau du

*Grey pinafore / skirt / trousers/shorts*
*Yellow & white gingham Summer dress*
*Royal blue cardigan / sweatshirt*
*Yellow polo shirt*
*Black shoes*





Bydd y plant yn gwneud addysg gorfforol mewn crys T glas a siorts du
Mae angen nodi enw plentyn yn glir ar bob dilledyn.
Ni chaniateir gemwaith.

*All pupils will wear blue T  shirt and black shorts for P E lessons. .*
*All garments need to be clearly marked with your child's name.*
*Jewellery is not permitted.*

**Disgwyliwn i'n rhieni gefnogi ein safonau .**
**We expect parents to support our standards.**

## ORIAU YSGOL - SCHOOL HOURS

Bore / *Morning* : 8:30a.m. - 11:45a.m. Babanod / *Infants*
12:00p.m. Iau / *Juniors*

Prynhawn/ *Afternoon*: 1:00p.m. - 3:00p.m.

Mae'n ofynnol i'ch plentyn gyrraedd yr ysgol rhwng 8:20a.m. ac 8:30a.m. yn barod i ddechrau gweithio am 8:30a.m.

*It is imperative that your child arrives in school between 8:20a.m. and 8:30a.m. ready to start work at 8.30 a.m.*





## ORIAU'R FEITHRIN
## *NURSERY HOURS*

Bore / *Morning:* 8.30am 11.00am.

Prynhawn / *Afternoon* 12.30pm. 3.00pm.

# Y CWRICWLWM

Nod ein Cwricwlwm yw i gefnogi ein disgyblion i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- Gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- Ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Addysgir y disgyblion o fewn y 6 Maes Dysgu canlynol:

| | |
|---|---|
| Y Celfyddydau Mymegiannol | Iechyd a LLes |
| Y Dyniaethau | Ieithoedd, Llythrenedd a Chyfathrebu |
| Mathemateg a Rhifedd | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |

Bydd pob aelod o'r staff yn asesu datblygiad y plant yn gyson ac yn cofnodi hynny yn fanwl. Bydd cyfle i'r rhieni drafod y datblygiad hwn mewn cyfarfodydd a drefnir yn ystod y flwyddyn, a darperir adroddiad ysgrifenedig unwaith y flwyddyn. **Pwysleisiwn arnoch y pwysigrwydd o fod yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn er mwyn atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r cartref.**

Darperir adroddiad ysgrifenedig yn flynyddol.

## ***CURRICULUM***

Our Curriculum aims for our pupils to be:

- Ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives
- Enterprising, creative contributors, who are ready to play a full part in life and work
- Ethical, informed citizens of Wales and the world
- Healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.

Pupils are taught within the following 6 Learning Areas:

The Expressive Arts — Health and Wellbeing

Humanities — Languages, Literacy and Communication

Mathematics and Numeracy — Science and Technology

*Each member of staff will regularly assess the children's progress and record the results in detail. There will be an opportunity for parents to discuss their child's progress in meetings with the teachers during the year.*

***We impress upon you the importance of attending these meetings to reinforce the close link between the school and the home.***

*A written report is prepared annually.*

**Defnyddio'r Gymraeg**

Gan ei bod yn Ysgol Gymraeg benodedig, y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ac fe'i defnyddir ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Y Gymraeg fydd prif gyfrwng bywyd a gwaith y Feithrin a'r Cyfnod Sylfaen, er mwyn i'r plant gael sylfaen gadarn yn yr iaith. Cymraeg fydd prif gyfrwng bywyd a gwaith yn yr adran Iau a dechreuir cyflwyno'r Saesneg rhwng diwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfle i ddatblygu'n gwbl ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol yn 11 oed.

***Use of Welsh Language***

*Since we are a designated Welsh school, Welsh is the official language of the school and it is used for every aspect of the curriculum. Welsh will be the main medium of education and life in the Nursery and Infant section so that the children acquire a sound grounding in the language. Welsh will be the main medium of education and school life in the Junior section, and English is initially introduced between the end of the Foundation Phase and Key Stage 2 so that there is an opportunity for the pupils to become completely bilingual by the time they leave the school at the age of 11.*

**Gwaith Cartref**

Rhoddir gwaith cartref yn achlysurol i holl ddisgyblion yr ysgol. Pwrpas hyn yw atgyfnerthu'r gwaith a gyflawnwyd yn yr ysgol.

**Gofynnir i rieni annog eu plant i ddarllen yn gyson ac i gefnogi eu plant gyda'r gwaith cartref.**

***Homework***

*All pupils receive homework occasionally The aim is to reinforce the work introduced at school.*

***We ask parents to read regularly with children and support all homework tasks.***



**Addysg Grefyddol**

Nid yw'r ysgol yn perthyn i unrhyw enwad, a mae'r cwrs addysg grefyddol yn astudiaeth gyffredinol sy'n seiliedig ar Gynllun Gwaith Cytun. Cristnogol fydd naws y cydaddoliad yn bennaf. Daw gweinidog lleol i ymuno â ni yn yr ysgol yn achlysurol.
Mae gan bob rhiant hawl i dynnu ei blentyn o wersi addysg grefyddol a chydaddoliad. Gellir trafod hyn â'r pennaeth os mynnir.

***Religious Education***

*The school has no affiliation with any one particular religious denomination, and the religious education course is a general course of study and follows the Agreed Syllabus for Religious Education.*
*Collective Worship in our school is predominantly Christian based. A local minister occasionally participates in the collective worship.*
*Every parent has the right to withdraw their child from religious education lessons and collective worship. This can be discussed with the headteacher if necessary.*

**Addysg Arbennig**

Dilynir 'Côd Ymarfer' ar gyfer Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cadw cofnod o'r plant sydd angen cymorth ac yn nodi eu cynnydd. Cysylltir â'r rhieni yn gyson. Mae copi o'r polisi Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael yn yr ysgol.
Mae'r ysgol yn derbyn cyngor a chymorth rheolaidd oddi wrth Adran Cefnogi Plant y sir.

***Special Educational Needs***
*The Special Needs 'Code of Practice is closely adhered to.*

*The ALNCo will keep detailed records of each child's progress . Parents are contacted regularly. A copy of the Additional Learning Needs policy is available at the school .The school receives regular advice and assistance from the county's Pupils' Support Unit*

**Addysg Rhyw**

Mae gan addysg rhyw a pherthnasau personol rôl bwysig wrth baratoi plant ar gyfer bywyd cyfrifol a datblygu ffordd o fyw sy'n iach. Daw yn fwy manwl a phenodol fel y bydd y plant yn aeddfedu ac angen gwybod mwy amdanynt eu hunain, eu cyfoedion a'u cymdeithas. Mae iddo agweddau pellach na gwybodaeth biolegol a chorfforol, agweddau sy'n ymgorffori gwerthoedd, agwedd iach a datblygu sgiliau.
Bydd addysg rhyw yn ymddangos fel rhan o'r cwricwlwm ac nid fel pwnc ar wahan, heblaw am y defnydd o fideo iechyd 'SENSE' ym mlwyddyn 6.
Gofynnir am ganiatad y rhieni cyn dangos y rhaglenni i'w plant. Gan y rhieni bydd y gair olaf os yw eu plant i gael gwersi addysg rhyw neu beidio.

***Sex Education***

*Sex education and personal relationships has an important part to play in preparing young people for responsible adult life and developing a healthy lifestyle. It becomes more detailed and specific as children mature and need to learn more about themselves, their peers and society. Its concerns go beyond biological and physiological knowledge to embrace values, attitudes and development of skills.*
*Sex education appears as an integral part of the curriculum and not in isolation, except for the use of a 'SENSE' health video in year 6. Parents' permission is sought before the pupils view the video. Parents have the right to indicate whether or not they wish their child to receive sex education in school.*

**Cyfleoedd Cyfartal**

Bydd pob plentyn yn derbyn yr un lefel o addysg o fewn yr ysgol gan ddilyn cynllun y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ôl eu gallu. Bydd pob plentyn yn cael y cyfle i gymryd rhan ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi Cyfle Cyfartal sydd ar gael yn yr ysgol.
Yn unol â'r polisi hwn bydd yr ysgol yn derbyn plant sydd âg anableddau ac yn ymdrechu i wneud y trefniadau angenrheidiol ar eu cyfer gyda'r Sir ac yn sicrhau drwy'r polisi nad oes unrhyw blentyn yn cael ei drin yn llai ffafriol na disgyblion eraill.Mae Cynllun Hygyrchedd ar gael yn yr ysgol.

***Equal Opportunities***

*Each child will receive the same level of education within the school by following the Foundation Phase curriculum and the National Curriculum according to their ability. Each child will be given the opportunity of taking part in all aspects of school life. The school implements an Equal Opportunities policy which is available at the school. In line with the policy, the school will endeavour to make the necessary preparations with the County to enable any pupil with a disability to enrol at the school and through the policy, ensure that no child is treated less favourably than any other pupil. There is an Accessibility Plan available at the school.*

**Trafod Cwynion**

Ein gobaith yw y byddwch yn cysylltu â'r pennaeth yn gyntaf os bydd gennych unrhyw gwyn. Rydym yn hyderus y byddwn yn gallu datrys y broblem rhyngom. Os nad ydych yn hapus, yna medrwch ymgynghori ymhellach â Chadeirydd y Llywodraethwyr. Os na fyddwch wedi eich bodloni â'r ffordd mae'r bobl uchod wedi ymateb i'ch cwyn yna dylid cysylltu â'r Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu.

***Complaints Procedure***

*We hope that in the event of a complaint you will first of all consult the headteacher. We are confident that between us we can solve the problem. If however you are not happy with the solution, you can discuss the matter further with the Chair of Governors. If you are still not satisfied with the way the above people have dealt with the matter, you should get in touch with the Director of Learning and Development.*

**Hyfforddiant Mewn Swydd**
Trefnir H.M.S. a datblygiadau cwricwlaidd o fewn blwyddyn addysgol . Ar y diwrnodau yma mi fydd yr ysgol ar gau ar gyfer y disgyblion. Rhoddir rhybudd priodol o"r dyddiadau cau.

***INSET***
*In-service training and curricular development is organised during the academic year. On these days the school will be closed for pupils. Appropriate warnings of the dates of closure will be given.*



***Gofal Plant***

*Mae gan holl rhanddeiliaid yr ysgol gyfrifoldeb dros warchod ein disgyblion. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, i son am y mater wrth Brif Swyddog Diogelu Plant yr Ysgol.*

*Gall y Prif Swyddog ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthansol megis y Gwasanaeth Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i 'r brif swyddog gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu os oes angen gweithredu neu beidio.*
*Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod y materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn.*

*Y Pennaeth Mr Rhydian Lloyd yw Prif Swyddog Diogelu Plant yr ysgol ac yn ei absenoldeb Mrs Sara Tomos, Dirprwy Bennaeth.*
*Y Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb am ddiogelu plant yw Mrs Christine Roberts*

Safeguarding

All the school's stakeholder have a responsibility in safeguarding our pupils. If there are concerns regarding neglect or physical, emotional or sexual abuse then, under the All Wales Child Protection Procedures 2008, staff are duty bound to report the matter to the school's designated Child Protection Co-ordinator.
The school's Co-ordinator may consult with professional colleagues as well as relevant agencies such as Health and Social Services. Following these discussions the school's Co-ordinator may be obliged to make an official referral to the Social Services Department. It is the Social Services Department who Decides on the next course of action. Due to the nature of the allegation it may not always be appropriate to discuss matters with parents prior to making a referral.

The Headteacher, Mr Rhydian Lloyd, is the school's Child Protection Co-ordinator and in his absence Mrs Sara Tomos, Deputy Headteacher.

The Governor responsible for Safeguarding is Mrs Christine Roberts





**Term Dates 2023/24**
**Dyddiadau'r Tymor 2023/24**

| Term | Begin | Half Term | | End | No of School Days |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Begin | End | | |
| Autumn 2023 | Monday 4 Sept 2023 | Monday 30 Oct 2023 | Friday 3 Nov 2023 | Friday 22 Dec 2023 | 75 |
| Spring 2024 | Monday 8 Jan 2024 | Monday 12 Feb 2024 | Friday 16 Feb 2024 | Friday 22 March 2024 | 50 |
| Summer 2024 | Monday 8 April 2024 | Monday 27 May 2024 | Friday 31 May 2024 | Monday 22 July 2024 | 70 |
| | | | | Total | 195 |

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Nifer o ddyddiau ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | | |
| Hydref 2023 | Llun 4 Medi 2023 | Llun 30 Hyd 2023 | Gwener 3 Tach 2023 | Gwener 22 Rhag 2023 | 75 |
| Gwanwyn 2024 | Llun 8 Ion 2024 | Llun 12 Chwe 2024 | Gwener 16 Chwe 2024 | Gwener 22 Mawrth 2024 | 50 |
| Haf 2024 | Llun 8 Ebrill 2024 | Llun 27 Mai 2024 | Gwener 31 Mai 2024 | Llun 22 Gorff 2024 | 70 |
| | | | | Cyfanswm | 195 |